Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Casmael

Casmael,
Hwlffordd,
Sir Benfro
SA62 5RL

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2025**

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Casmael

| | |
|---|---|
| Enw’r darparwr | Ysgol Casmael |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Penfro |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | Cyfrwng Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 80 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 60 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 6 |
| Canran y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 22.9%) | 10.8% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 11.1%) | 23.3% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 26.7% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi’r pennaeth | |

| | |
|---|---|
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 02/06/2025 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Wrth galon Ysgol Casmael mae arweinyddiaeth ofalgar a chadarn sy'n creu awyrgylch gynnes, lle mae pob disgybl yn cael ei groesawu a'i werthfawrogi. Mae'r pennaeth a'i thîm yn cydweithio'n effeithiol ar draws y ffederasiwn i greu cymuned hapus a chynhwysol, gan osod hunaniaeth a threftadaeth leol wrth wraidd profiadau'r disgyblion.

Mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus yn yr ysgol. Maent yn gwybod at bwy i droi os oes angen cymorth, ac yn dangos parch tuag at ei gilydd a'r staff. Ceir perthynas gref rhwng y disgyblion a'r oedolion, gan feithrin ymddygiad arbennig ar draws yr ysgol.

Mae staff yn darparu sesiynau ysgogol, sy'n ysbrydoli disgyblion i ymroi'n frwdfrydig i'w dysgu. Maent yn defnyddio ystod eang o ddulliau addysgu effeithiol, yn cynllunio sesiynau difyr ac ystyrlon, ac yn addasu gweithgareddau'n addas i ddiwallu anghenion bron bob disgybl. Maent yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion hynaf weithio'n annibynnol. Fodd bynnag, mae tueddiad i staff or-arwain gweithgareddau'r plant ieuengaf gan lesteirio eu gallu i ymchwilio, arbrofi a dysgu'n annibynnol tu fewn a thu allan i'r dosbarth. Mae athrawon yn holi ac yn annog disgyblion yn effeithiol i ehangu eu dealltwriaeth. Yn yr arfer orau, mae athrawon yn rhannu adborth yn amserol sy'n galluogi disgyblion i adnabod yr hyn maent wedi ei wneud yn dda. Fodd bynnag, nid yw'r adborth bob tro'n nodi camau nesaf yn nysgu'r disgyblion yn ddigon effeithiol er mwyn iddynt ymateb yn fwriadus.

Ar draws yr ysgol, mae bron bob disgybl yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau mewn amrywiol feysydd dysgu. Mae darllen yn elfen ganolog o'r ddarpariaeth, gyda strategaethau effeithiol a llyfrau deniadol yn meithrin brwdfrydedd a hyder. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd arbennig yn eu medrau darllen, sy'n cefnogi eu medrau llythrennedd yn ehangach.

Mae'r ysgol yn defnyddio ystod addas o dystiolaeth o wahanol ffynonellau i werthuso ei gwaith ac i gynllunio ar gyfer gwelliant. Mae'r llywodraethwyr yn weithgar, yn adnabod ysgolion y ffederasiwn yn dda, ac yn cefnogi'r ysgol yn effeithiol fel ffrind beirniadol.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella

A1. Ehangu cyfleoedd i'r disgyblion ieuengaf gryfhau eu medrau annibynnol tu fewn a thu allan i'r dosbarth

A2. Sicrhau cyfleoedd cyson i ddisgyblion ymateb i adborth a gwella eu gwaith

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif arfarniad

Mae Ysgol Casmael yn gymuned hapus a chynhwysol sy'n blaenoriaethu datblygu dealltwriaeth disgyblion o'u hunaniaeth a threftadaeth leol. Mae'r pennaeth wedi sefydlu amgylchedd dysgu gofalgar ar draws ysgolion y ffederasiwn, ac mae disgyblion yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a gânt. Maent yn gwybod at bwy i droi os oes ganddynt unrhyw bryderon neu ofidiau ac maent yn teimlo'n ddiogel wrth eu dysgu a'u chwarae yn yr ysgol. Mae ymdeimlad cryf o berthyn wedi ei wreiddio yn yr ysgol ac, o ganlyniad, mae ymddygiad bron bob disgybl yn arbennig.

Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel ohoni ei hun, y disgyblion a'r staff. Caiff ei chefnogi'n fedrus gan dîm o staff ymroddgar ac maent yn cydweithio'n dda i fynd i'r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, fel datblygu'r Gymraeg a hybu presenoldeb cyson disgyblion yn yr ysgol. Mae'r pennaeth yn adnabod anghenion y disgyblion, y staff a'r cymunedau yn arbennig o dda. Mae gan ysgolion y ffederasiwn gysylltiadau llwyddiannus â'r gymuned leol i gynnig profiadau gwerthfawr i'r disgyblion. O ganlyniad, mae ymdeimlad cryf o hunaniaeth, balchder a pharch yn bodoli rhwng disgyblion a staff sy'n treiddio'n naturiol ar draws cymuned glòs y ffederasiwn.

Mae'r pennaeth wedi dosrannu cyfrifoldebau staff yn ddoeth ac mae cyfleoedd dysgu proffesiynol cyson yn eu harfogi i ddatblygu eu harferion yn gyson. Mae'r cydweithio clòs rhwng ysgolion y ffederasiwn yn cefnogi'r staff i rannu arfer dda, a chyd-gynllunio cwricwlwm sy'n datblygu dealltwriaeth disgyblion o'u cynefin.

Rhinwedd arbennig o'r ddarpariaeth yw'r berthynas waith gynhaliol sy'n bodoli rhwng y disgyblion a'r staff. Mae athrawon yn defnyddio ystod o ddulliau addysgu effeithiol ac yn datblygu'r gweithgareddau dysgu gyda chyflymder addas. Maent yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion weithio'n annibynnol yn y sesiynau heriau dyddiol. Fodd bynnag, mae tueddiad i staff or-arwain gweithgareddau'r plant ieuengaf gan lesteirio eu gallu i ymchwilio, arbrofi a dysgu'n annibynnol tu fewn a thu allan i'r dosbarth. Mae athrawon yn defnyddio dulliau holi ac anogaeth yn amserol er mwyn cefnogi cynnydd disgyblion ac ymestyn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o wahanol gyd-destunau yn effeithiol. Yn yr arfer orau, mae athrawon yn rhannu adborth yn amserol sy'n galluogi disgyblion i adnabod yr hyn maent wedi ei wneud yn dda. Fodd bynnag, nid yw'r adborth bob tro'n nodi camau nesaf yn nysgu'r disgyblion yn ddigon effeithiol er mwyn eu galluogi i ymateb trwy firienio neu wella eu gwaith.

Mae'r athrawon a'r staff yn datblygu medrau disgyblion yn effeithiol, gan adeiladu'n dda ar eu dysgu blaenorol. O ganlyniad, yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae bron bob disgybl, gan gynnwys y rheiny sydd ag ADY a'r rhai sy'n cael eu niweidio gan dlodi yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau rhifedd a digidol ynghyd ag ystod eraill o fedrau mewn

amrywiol feysydd dysgu. Agwedd nodedig o waith yr ysgol yw'r ffordd mae staff wedi datblygu a gwreiddio medrau darllen disgyblion sydd, yn ei dro, wedi cael effaith gadarnhaol ar fedrau llythrennedd bron bob disgybl.

### Ciplun: Datblygu a gwreiddio medrau darllen disgyblion

Yn dilyn dadansoddiadau profion darllen ac arfarniadau gan staff, cafodd pob aelod o staff ddatblygiad proffesiynol pwrpasol yn ymwneud â datblygu ymyraethau darllen a strategaethau darllen cyflym. Buddsoddwyd mewn llyfrau a thestunau Cymreig pwrpasol o safon uchel i ddenu a thanio mwynhad darllen disgyblion. Ar draws yr ysgol, etholwyd llysgenhadon darllen i arwain strategaethau, fel y sesiwn darllen ysgol gyfan. Mae bron bob dosbarth yn cynnwys corneli darllen deniadol a modern ac mae staff yn cynllunio sesiynau dysgu bwriadus sy'n ymgorffori darllen ac uwch fedrau darllen yn wythnosol. O ganlyniad, mae diwylliant cryf o ddarllen yn bodoli ar draws yr ysgol, ac mae bron bob disgybl yn gwneud cynnydd arbennig yn eu medrau darllen.

Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais cryf ar ddatblygu'r Gymraeg, ac mae'r staff yn arddel yr iaith yn arbennig. O ganlyniad, erbyn brig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau gwrando a siarad yn fedrus. Maent yn hyderus wrth gymryd rhan mewn trafodaethau ac yn mynegi eu hunain yn aeddfed yn Gymraeg a Saesneg.

Mae medrau ysgrifennu y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda. Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu medrau modur mân priodol ac yn dechrau ysgrifennu ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd ac at wahanol ddibenion. Erbyn brig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n fwyfwy estynedig ac yn dewis geirfa'n bwrpasol i ennyn diddordeb darllenwyr.

Mae staff yn darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion arwain ar agweddau pwysig o waith yr ysgol sy'n datblygu medrau fel cydweithio, cyfathrebu ac empathi yn effeithiol. Maent yn cymryd y cyfrifoldebau o ddifri ac yn ymfalchïo yn y cyfleoedd a gânt.

Mae cyfnodau cyd-addoli yn hybu datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn bwrpasol. Yn ystod y gwasanaethau, er enghraifft, mae disgyblion yn myfyrio'n ystyrlon ar garedigrwydd, cyfrifoldeb a cheisio eu gorau glas, sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at ethos hapus a gofalgar sy'n bodoli ar draws yr ysgol.

Mae'r pennaeth wedi sefydlu trefniadau cadarn i fonitro a gwerthuso'r ddarpariaeth. Mae arweinwyr yn defnyddio ystod addas o dystiolaeth er mwyn adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella. Mae'r holl dîm yn cyfrannu'n llwyddiannus at y gweithdrefnau hyn. Er hyn, nid yw'r prosesau hunanwella bob amser yn canolbwyntio'n ddigon bwriadus ar effaith y gweithredoedd ar gynnydd y dysgu a'r addysgu.

Mae’r llywodraethwyr yn gefnogol i waith y ffederasiwn, ac maent yn adnabod yr ysgolion a’r cymunedau y mae’n eu gwasanaethu yn dda iawn. Maent yn derbyn gwybodaeth gyfredol, reolaidd gan y pennaeth ac maent yn defnyddio eu profiadau o’u hymweliadau i ddwysáu eu dealltwriaeth o safonau’r dysgu a’r addysgu. Mae ganddynt ddealltwriaeth addas o flaenoriaethau cenedlaethol, ac maent yn hybu cyfraddau presenoldeb cadarn. Mae’r pennaeth a’r llywodraethwyr yn ystyriol o effaith tlodi ar gynnydd a lles disgyblion, ac yn sicrhau bod holl weithgarwch y ffederasiwn yn gynhwysol ac yn agored i bawb.

Mae gan yr ysgol berthynas gynhyrchiol â rhieni. Mae rhieni’n teimlo eu bod yn gallu sgwrsio ag unrhyw aelod o staff er mwyn trafod lles ac addysg eu plant. Mae’r pennaeth yn caffael barn rhieni am agweddau pwysig o brofiadau dysgu eu plant yn gyson, ac yn ymateb i’w syniadau yn amserol.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli’r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni/gofalwyr a’r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a’r corff llywodraethol / aelodau’r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a’r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a’r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo’n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo’n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â’r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu’r disgyblion (lle y bo’n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 04/08/2025